**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

11 Rhagfyr 2023

**Camau gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gofynion y Gymraeg ar gyfer bancio**

Annwyl Jeremy

Byddwch yn ymwybodol y siaradodd y Pwyllgor â José Carvalho, Pennaeth Cyfoeth a Bancio Personol yn HSBC UK yn ei gyfarfod ar 29 Tachwedd 2023, a hynny mewn perthynas â phenderfyniad HSBC i gau ei linell ffôn i gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith. Rydym yn ymwybodol o'ch pryderon am benderfyniad y banc.

Fel y gwelwch o'r llythyr yr ydym wedi'i anfon at HSBC, rydym wedi dweud wrthynt:

> *"...bydd methu â gwneud hynny [newid ei safbwynt] yn golygu bod ymrwymiadau HSBC i Gymru a'r Gymraeg i bob pwrpas yn ddiystyr."*

Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth gyda HSBC, hoffem ofyn i chi amlinellu pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried eu cymryd i annog a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector bancio. Byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu'r camau hyn, yn ogystal â sut y bydd Llywodraeth Cymru a chyrff partner yn ceisio annog a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn sectorau eraill sydd y tu hwnt i gwmpas Mesur 2011. Ein bwriad fydd ystyried y pwyntiau hyn yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

Yn gywir

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.